




Cwynion Myfyrwyr

Os ydych chi'n anfon efo'ch cwrs neu efo gwasanaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol, mae gennych chi'r hawl i godi'ch pryderon trwy'r [Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr](#).

Gall ein Gwasanaeth Cyngor eich helpu chi i ddeall y broses gwynion, trafod eich pryderon, eich cynghori ar y cam nesaf gorau, edrych dros eich cwyn cyn i chi ei gyflwyno, a'ch cefnogi chi trwy'r broses.

Cam 1 - Datrysiad Anffurfiol

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr geisio datrys pryderon yn anffurfiol cyn gwneud cwyn ffurfiol.

I ddechrau, dylech chi godi'ch pryderon yn ysgrifenedig efo'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, rhaglen neu'r modiwl. Fel arall, gallwch chi drafod eich pryderon efo'ch Tiwtor Personol neu Uwch Diwtor. Gall materion cyffredinol sy'n effeithio ar nifer o fyfyrwyr gael eu codi trwy Bwyllgor Staff a Myfyrwyr eich Ysgol.

Mae'r Brifysgol yn ceisio ymateb i bryderon anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith.

Os ydych chi'n ansicr dros efo pwy i gysylltu neu sut i godi'ch pryderon, gallwn ni eich helpu chi i ffeindio'r person mwyaf addas a'ch cefnogi chi wrth ddrafftio eich e-bost neu eich ymateb ysgrifenedig.

Cam 2 - Cwyn i Bennaeth yr Ysgol neu Wasanaeth (Dal yn rhan o'r broses datrysiad anffurfiol, rhaid dilyn hwn cyn codi'r mater i'r cam ffurfiol.)

Os nad ydych chi'n fodlon efo canlyniad y cam anffurfiol, gallwch chi gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig i Bennaeth yr Ysgol neu Bennaeth y Gwasanaeth.

Dylai esboniad clir fod yn eich cwyn o:

- Amserlen y digwyddiadau wnaeth arwain at eich cwyn.
- Sut mae'r sefyllfa wedi'ch effeithio chi a'ch astudiaethau.
- Unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'ch cwyn, fel e-byst, sgrinluniau, tystiolaeth feddygol neu ddogfennau perthnasol eraill.
- Y canlyniad hoffech chi gael.

Os mae gennych chi lawer o dystiolaeth, mae'n ddefnyddiol i'w drefnu mewn i atodiadau sydd wedi eu labelu'n glir, gyda esboniad o sut mae pob dogfen yn cefnogi'ch cwyn.

Wrth esbonio pa ganlyniad hoffech chi gael, ceisiwch fod yn realistig ac yn rhesymol. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gall hyn gynnwys ymddiheuriad, newidiadau i oruchwyliaeth neu i gefnogaeth, newidiadau i drefniant dysgu, ail-dderbyniad, neu iawndal ariannol. Os ydych chi'n gofyn am iawndal, dylech chi esbonio sut gwnaethoch chi gyfrifo'r swm a ofynnwyd amdano.

Mi fydd Pennaeth yr Ysgol neu Wasanaeth fel arfer yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gall ein Gwasanaeth Cyngor eich helpu chi i baratoi eich cwyn, trefnu eich tystiolaeth, ac edrych dros eich drafft cyn i chi ei gyflwyno.

Cam 3 - Cwyn Ffurfiol

Os ydych chi dal yn anfodlon gyda'r ymateb gan Bennaeth yr Ysgol neu'r Gwasanaeth, falle y gallwch chi gyflwyno cwyn ffurfiol i'r Tîm Achosion Myfyrwyr.

Rhaid i'ch cwyn ffurfiol gynnwys:

- Manylion llawn eich cwyn.
- Y camau rydych chi wedi cymryd yn barod i geisio datrys y mater yn anffurfiol.
- Pam rydych chi dal yn anfodlon gyda'r canlyniad.
- Y canlyniad hoffech chi gael.
- Eich enw llawn a'ch Rhif Adnabod Myfyriwr.

Fel arfer, bydd y Brifysgol yn cydnabod eu bod nhw wedi derbyn eich cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith.

Mi fydd eich cwyn wedyn yn cael ei ystyried gan un o'r Dirprwy Is-Gangellorion, a all fod angen ymchwilio'n bellach i'ch cwyn. Gall hyn gynnwys edrych dros dystiolaeth, siarad efo chi ac aelodau perthnasol o staff, neu gyfeirio'r mater at Bwyllgor Ymchwilio os mae'r cwyn yn ddigon cymhleth.

Yn dilyn yr ymchwiliad, gall un o'r Dirprwy Is-Gangellorion benderfynu:

- I beidio cymryd camau pellach os dânt i'r casgliad na ellir cynnal y gŵyn.
- I gyfeirio'r cwyn at broses arall yn y Brifysgol os maent yn credu ei bod hi'n fwy addas ei ystyried o dan broses arall, fel Apeliadau Academiaidd neu'r Broses Disgyblu Myfyrwyr.
- I gynnig datrysiad er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Gall hyn gynnwys argymelliadau neu weithredoedd i'r myfyriwr a/neu'r Ysgol neu'r Gwasanaeth allu datrys y gŵyn.
- I gyfeirio'r cwyn i Bwyllgor Ymchwilio os mae'r gŵyn yn ddigon cymhleth neu angen ymchwiliad pellach cyn i benderfyniad gael ei wneud. Gallwch weld mwy o wybodaeth am hyn yn y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

Cam 4 - Apêl

Os ydych chi'n anfodlon gyda chanlyniad eich cwyn ffurfiol, gallwch chi apelio'r penderfyniad gyda'r Is-Ganghellor. Bydd rhaid i chi esbonio'ch rheswm dros apelio.

Bydd yr Is-Ganghellor yn edrych dros eich cwyn ac yn gwneud penderfyniad terfynol o dan brosesau mewnol y Brifysgol. Unwaith i'r cam hwn gael ei gwblhau, byddwch chi'n derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA)

Os ydych chi dal yn anfodlon ar ôl cwblhau holl brosesau mewnol y Brifysgol, falle y gallwch chi gymryd eich cwyn at **Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA)**.

Mae'r OIA yn sefydliad annibynnol sy'n edrych dros gwynion myfyrwyr am ddarparwyr addysg uwch. Cyn cymryd eich cwyn at yr OIA, rhaid i chi fod wedi cwblhau proses cwynion mewnol y Brifysgol ac wedi derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Gall ein Gwasanaeth Cyngor esbonio'r broses OIA a'ch cyngori chi ar y camau nesaf os yn addas.